



Ysgol Eifionydd Porthmadog

Pennaeth / Headteacher : Mrs. Alwen P. Watkin, B.A.
Ysgol Eifionydd • Porthmadog • Gwynedd LL49 9HS

Ffôn / Phone : (01766) 512114 Ffacs / Fax : (01766) 514785

Safle Wê:- <http://www.eifionydd.gwynedd.sch.uk>

e-bost:- cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk

Tachwedd 2014

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

CYFARFOD BLYNYDDOL RHINIEN GYDA'R LLYWODRAETHWYR

Amgaeaf gopi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2013-2014

Yn gywir iawn,

Bethan Nickson

Cadeirydd y Llywodraethwyr

-----✂-----✂-----✂-----✂-----
Ni gynhaliwyd cyfarfod blynyddol rhieni gyda'r llywodraethwyr yn 2012-2013

Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod gynnwys llofnodion 10% o rieni disgyblion cofrestredig. Gweler crynodeb o ganllawiau ynghylch y dyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni ar safle we yr ysgol

Ysgol Eifionydd Porthmadog

Cyfarfod Blynyddol Rhieni 2013-2014

Enw'r Rhiant/Gwarchodwr: _____

Enw'r plentyn hynaf yn yr ysgol: _____



Dosbarth: _____

Arwyddwyd: _____

Dyddiad: _____



Gwobr Cydnabod Ansawdd
(Gogledd Cymru a Phowys)
Recognition of Quality Award
(North Wales and Powys)



Ysgol Eifionydd Porthmadog (11-16)

Adroddiad y Llywodraethwyr am y Flwyddyn Academaidd 2013/2014

Bydd yr adroddiad hwn sy'n grynodeb o sut y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd copi o'r adroddiad ar gael i rieni drwy ymweld â safle we'r ysgol.

1. Y CORFF LLYWODRAETHU

<u>Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>	<u>Cynrychiolwyr Rhieni</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>
Cyng Selwyn Griffiths	31.08.2016	Mr Guto Rhys Tomos	31.08.2016
Cyng Jason Humphreys	31.08.2016	Mr Ian Jones	31.08.2016
Cyng Eirwyn Williams	31.08.2016	Mrs Nia Fon Lane (Is-gadeirydd)	31.08.2016
Mrs Bethan Nickson (Cadeirydd)	31.08.2016	Mrs Bethan Price	31.08.2016
		Mrs Marian Trythall	31.08.2016
<u>Aelodau Cyfetholedig</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>	<u>Cynrychiolwyr Athrawon</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>
Mrs Amanda Russell Smith	31.08.2016	Mr Sion Amllyn	31.08.2015
Mr Robert Lewis	31.08.2015	Mr Fred Smith	31.08.2017
Mr Huw Alan Roberts	31.08.2016	<u>Cynrychiolydd Staff Ategol</u>	
Mr Wayne T Roberts	31.08.2016	Mrs Patricia Williams	31.08.2016

Pennaeth:

Mrs Alwen P Watkin

Clerc:

Swyddog Gweinyddol, Ysgol Eifionydd.

Cadeirydd y Llywodraethwyr:
Llywodraethwyr

Gellir cysylltu â Mrs Bethan Nickson trwy law Clerc y

Mae'n bleser croesawu aelodau newydd y Corff Llywodraethu ar ddechrau eu cyfnod. Dymunaf bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith. Carwn ddiolch i weddill aelodau'r corff am eu parodrwydd i barhau i weithio er budd disgyblion yr ardal ac am eu ffyddlondeb cyson.

2. ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR

Yr oedd 392 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol ar 1af o Fedi, 2013 gyda 26.54 o athrawon. Y rhif mynediad am y flwyddyn 2014/2015 yw 369.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu fel a ganlyn:-

Corff Llawn	-	23ain o Fedi, 2013
Is Banel Cyllid	-	15fed o Hydref, 2013
Is Banel Adeiladau	-	26ain o Dachwedd, 2013
Corff Llawn	-	3ydd o Ragfyr, 2013
Is Banel Lles/Cwricwlwm	-	14eg o Ionawr, 2014
Is Banel Staffio	-	21ain o Ionawr, 2014
Panel Diswyddo Gormodedd	-	21ain o Ionawr, 2014
Is Banel Adeiladau	-	18eg o Chwefror, 2014
Is Banel Lles/Cwricwlwm	-	11eg o Fawrth, 2014
Corff Llawn	-	25ain o Fawrth, 2014
Is Banel Cyllid	-	29ain o Ebrill, 2014
Is Banel Lles/Cwricwlwm	-	13eg o Fai, 2014
Is Banel Lles/Cwricwlwm	-	15fed o Orffennaf, 2014
Corff Llawn	-	15fed o Orffennaf, 2014
Is Banel Staffio	-	15fed o Orffennaf, 2014

Trafodwyd y materion canlynol:-

- i) Ethol Cadeirydd/Is gadeirydd
- ii) Ethol aelodau ar gyfer yr Is-baneli
- iii) Trefn gweithredu'r Corff Llywodraethol
- iv) Polisiau Ysgol
- v) Canlyniadau Arholiadau Allanol.

- vi) Costau Ilogi
- vii) Costau Gwersi Offerynnol
- viii) Cyrsiau Galwedigaethol
- ix) Cynllun Datblygu ysgol
- x) Cyfrifon Ysgol
- xi) Gwasanaeth Arlwyfaeth
- xii) Materion staffio
- xiii) Penodiad Dirprwy Bennaeth newydd
- xiv) Penodiadau staff dysgu

Cafwyd nifer o gyfarfodydd o'r is-baneli ble y trafodwyd Cyllid, Adeiladau, Cwricwlwm/Lles a materion staffio.

CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL

Cafwyd canlyniadau T.G.A.U. da iawn eleni. Roedd ein canran llwyddiant yn uwch na'r ffigur sirol a chryn dipyn yn uwch na'r ffigur cenedlaethol. Gweler y manylion ar ddiwedd yr adroddiad. Carwn longyfarch ein disgyblion ar eu llwyddiant a diolch i'r staff am eu gwaith caled yn eu paratoi. Rydym hefyd yn falch o glywed am llwyddiant ein cyn-ddisgyblion yn y colegau.

GWYBODAETH I RIENI

Gellir cael manylion am gwricwlwm yr ysgol gan y Pennaeth. Yn flynyddol cyhoeddir llawlyfr gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Mae gwybodaeth gyffredinol hefyd ar gael drwy ymweld â safle Moodle yr Ysgol. Mae hefyd gwybodaeth ar gael trwy'r gwefanau cymdeithasol 'facebook' a 'twitter'.

MATERION STAFFIO

Croesawyd nifer o aelodau newydd i'n plith ar ddechrau yn ystod y flwyddyn:

- Ar ddechrau tymor yr Hydref, 2013 croesawyd Miss Cerian Griffiths yn athrawes dros gyfnod mamolaeth i'r adran Gymraeg a Miss Mary Atkinson yn athrawes i'r adran Saesneg.
- Croesawyd yn ogystal Alwen Griffiths, Rhodd Teleri Jones a Daniel Rhys Dafydd i'w swyddi fel cymorthyddion ADY yn yr ysgol.
- Penodwyd Miss Lola Parry yn Uwch Gymhorthydd Cyflenwi yn lle Mrs Llinos Alwena Owen a symudodd i fyw i Lundain ar ddechrau mis Tachwedd.
- Bu i'r Mr Dewi Bowen y Dirprwy Bennaeth weithredu fel Pennaeth mewn gofal yn ystod cyfnod absenoldeb salwch y Pennaeth. Bellach, mae'r Pennaeth wedi dychwelyd yn ôl i'w gwaith a dymuna Mrs Alwen Watkin ddiolch i Mr Dewi Bowen ac i Mr Gwyn Owen am eu gwaith yn ystod ei habsenoldeb
- Apwyntiwyd Miss Jessica Kavanagh yn Swyddog 5X60 newydd i'r ysgol gan yr Awdurdod.
- Estynwyd llongyfarchiadau i Mr Sion Cadwaladr Rheolwr yr Uned Gynhwysiad ar enedigaeth merch fach Enlli Teleri.
- Yn dilyn trafodaethau gyda'r Awdurdod bu i Mr Fred Smith a Mrs Elin McGowan dderbyn diswyddo'n wirfoddol o'r 31 o Awst, 2014 a hynny fel bod yr ysgol yn osgoi gorfod diswyddo gorfodol -Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs McGowan, dymunwn hefyd bob llwyddiant i Mr Fred Smith.
- Diolchwyd i Miss Catrin Elan a fu'n athrawes yn yr adrannau Cymraeg a Saesneg yn ystod absenoldebau mamolaeth Mrs Laura Hughes a Mrs Nia Jones.
- Mae Mrs Delyth Humphreys wedi ei phenodi yn ddarlithydd Cerdd TAR Uwchradd yn y Brifysgol ym Mangor. Bydd yn cael ei rhyddhau am ddau ddiwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr Hydref a bydd yn ein gadael ac yn cychwyn yn llawn amser ym mis Ionawr 2015.

CYSYLLTIADAU A'R GYMUNED

Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Neuadd yr Ysgol, nos Fercher Rhagfyr 18fed, 2013. Bu i ddisgyblion a chyn ddisgyblion yr Ysgol ynghyd a thalentau lleol gymryd rhan yn y noson.

Dosbarthiadau Nos

Mae'r Ysgol yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer dosbarthiadau nos mewn meysydd megis Cymraeg, Cymraeg i Ddechreuwy'r a chyrtsiau'r Gwasanaeth Ieuencid Yn ogystal, mae'r clwb Karate a Kick boxing yn gwneud defnydd rheolaidd o'r Neuadd Gymunedol.

Ymgyrchoedd Codi Arian 2013-2014

Gweinyddir teithiau ysgol drwy Gronfa Ysgol Eifionydd
Gweinyddir y wisg ysgol drwy Gronfa Gwisg Ysgol Eifionydd

Archwilir y Cronfeydd yn flynyddol gan gwmni Dunn & Ellis, Cyfrifwyr, Bank Place, Porthmadog, Gwynedd

Diwrnod plant mewn angen 15/11/13	£973.99
Cyngerdd Nadolig 18/12/13 (tuag at Ysbyty Walton)	£730.30
Diwrnod di-wisg ysgol 11/4/14 (Cyngor Ysgol I bennu elusen)	£301.00
Wythnos Gweithgareddau Gorffennaf 2014 Taith gerdded nodedig - casglu arian i'r ysgol ac at elusennau lleol	£1,568.02

GWEITHGAREDDAU AC YMWELIADAU ADDYSGOL

Nosweithiau Rhieni

Cynhaliwyd pum noson rieni yn ystod y flwyddyn ysgol:

- Blwyddyn 7
- Blwyddyn 8
- Blwyddyn 9
- Blwyddyn 10
- Blwyddyn 11

Cynhaliwyd noson opsiynau i rieni blwyddyn 9 ar Chwefror 18eg, 2014. Cawsant gyflwyniadau ar Lwybrau dysgu 14-19, dewisiadau, y farchnad lafur lleol ac arweiniad ar ddefnydd o Yrfa Cymru ar lein.

Noson Agored Cywllt Cynradd

Fel rhan o strategaeth yr ysgol i ddenu mwy o ddisgyblion i'r ysgol, cynhaliwyd noson i rieni blwyddyn 5 y dalgylch. Yn ystod y noson cawsant gyflwyniad i'r ysgol a'u llwyddiannau, cyflwyniad ar fanteision dwyieithrwydd ac effaith hynny ar ganlyniadau a chyfle i brofi peth o ddanteithion y gegin. Er mai cymharol isel oedd y nifer a fynychodd, roedd y rhai a fu yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld a gofyn cwestiynau. Bydd noson agored yn cael ei cael ei chynnal ystod tymor yr Hydref. Lle rhoddir cyflwyniad i rieni blwyddyn 6 ar gwricwlwm yr ysgol, trefniadau bugeiliol, canlyniadau ac ar y ddarpariaeth allgyrsiol eang sy'n cael ei gynnig gennym.

Gweithgareddau Blwyddyn 5 a 6 - Cynradd

Eleni am y tro cyntaf, trefnwyd dau ddiwrnod o wersi a gweithgareddau i flwyddyn 5 y dalgylch. Yn ystod y deuddydd cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwersi Cymraeg; Gwyddoniaeth; Ffrangeg; Cerdd; Addysg Gorfforol a Thechnoleg. Roedd ffurflenni arfarnu'r disgyblion yn gadarnhaol tu hwnt. Hoffwn ddiolch i'r holl staff a fu'n brysur yn sicrhau llwyddiant y ddau ddiwrnod. Yn yr un modd, cafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i dreulio dau ddiwrnod yn yr ysgol yn cael blas ar wahanol wersi. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y disgyblion. Diolch i'r staff am bob cefnogaeth wrth sicrhau llwyddiant y deuddydd.

Gweithgareddau 5 x 60

Ar ddiwedd yr hanner tymor cyntaf ffarwelwyd a Miss Ann Williams ein swyddog 5 x 60. Mae Ann wedi dechrau ar swydd newydd fel swyddog Hybu Beicio Gogledd Cymru. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Mae gweithgareddau 5 x 60 parhau i fynd o nerth i nerth. Yn ystod y flwyddyn mae'r disgyblion wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau isod:

- Pêl droed
- Rygbi genethod
- Ffitrwydd
- Gymnasteg
- Bocsio
- Boot Camp
- Dawns
- Pêl Fasged
- Clwb saethu targed
- Hoci
- Golff
- Padlo yn y pwll
- Clwb Beicio Dwyfor
- Dodgeball

Llongyfarchiadau i'r tîm Rygbi merched sydd newydd gael ei sefydlu gan y swyddog 5x60 Jess Kavanagh. Enillodd y tîm dwrnament Gwynedd a Môn.

Llongyfarchiadau i dîm Blwyddyn 9 a enillodd gystadleuaeth beicio mynydd. Y tair yn y tîm oedd Erin Parry, Emily Mabbot a Megan Griffiths

Cynhaliwyd y teithiau isod yn ystod 2013-2014

- Taith yr Adran Hanes, Cerdd a Chelf i'r Tate yn Lerpwl
- Taith yr Adran Gerdd i weld 'We will Rock you' yn Llundain.
- Taith yr adran Hamdden a Thwristiaeth i Hafan y Môr
- Coginio noddedig gan ddisgyblion blwyddyn 10 yr Adran Dechnoleg.
- Diwrnod di-wisg ysgol i gasglu arian at Blant Mewn Angen.
- Noson Agored i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 y dalgylch.
- Taith Sglefrio'r Urdd i Lannau Dyfrdwy.
- Ymweliad a gem pêl droed Abertawe v Manchester United
- Trawsgwlad Eryri
- Bowldro yn wal ddringo Eryri
- Ymweliad Dinasyddiaeth Byd Eang â Neuadd Dwyfor i weld ffilm Mandela - the long walk to freedom.
- Twrnament hoci yn Ysgol y Berwyn
- Gweithgareddau Gyrfa Cymru yng Ngwersyll yr Urdd Glan-Ilyn.
- Beicio Mynydd yng Nghoed y Brenin.

Ymweld a cholegau

Bu disgyblion blwyddyn 10 yn ymweld â Choleg Meirion Dwyfor Dolgellau a Phwllheli yn ystod y dyddiau agored.

Cynllun Ysgolion Iach

Mae'r Ysgol wedi derbyn 3 babi rhyngweithiol trwy gynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Bydd y babis yn cael eu defnyddio fel rhan o raglen Addysg Rhyw a pherthnasoedd sy'n rhan o'n rhaglen AbaCH.

Noson Wobrwyo - BI 11

Cynhaliwyd Prom i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn y Clwb Golff Morfa Bychan. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a chynhaliwyd seremoni wobrwyo. Dyma enillwyr y gwahanol categorïau:

GWAITH CWRS
ESIAMPL I ERAILL
DATBLYGIAD PERSONOL
PEL DROED
CHWARAEON
DIWYLLIANNOL

CADI LAKE
DANIEL PRICE
RYAN FITZJOHN
LEO SMITH
TOM SMITH
MANON PUW

Perfformiad gorau mewn pwnc:

CYMRAEG
SAESNEG
MATHEMATEG
GWYDDONIAETH
ARLWYO
DATBLYGIAD Y PLENTYN

MIRAIN RHISIART
ELIN GAFFEY
GETHIN LLEW WILLIAMS
CAITLIN JONES
CHARLOTTE SMITH a WILLIAM MONCRIEFFE
LAUREN ROBERTS

DYLUNIO A THECHNOLEG -
DYLUNIO CYNNYRCH
DYLUNIO A THECHNOLEG -
CYNHYRCHION GRAFFEG
ADDYSG GREFYDDOL
HANES
DAEARYDDIAETH
HAMDDEN A THWRISTIAETH
CERDD
CELFI
ADDYSG GORFFOROL TGAU
FFRANGEG
TGCh
BUSNES
PEIRIANNEG
PROFIAD GWAITH ESTYNEDIG
E-GYFRYNGAU
Y GYFRAITH
ADEILADWAITH
AMAETHYDDIAETH

CERI COOPER

DALONI OWEN
ELIZABETH FACER
NEL GRIFFITH
MEDENI EVENS
LOWRI DYSART
LLEUCU EDWARDS
NON JONES
DYLAN SWEENEY
ELERI TRYTHALL
ANEST LANE
FFION ROBERTS
KIRK McBETH
JAMES THOMAS
RHYS JONES
BETH HUGHES
DANIEL FISHER
GWYNANT PARRY

Diolch unwaith eto i Mr Gwilym Jones y Rheolwr, Rhian a Staff y Gegin am eu croeso a'r bwyd bendigedig.

Cynllun Gwobrwyo

Estynnwyd gwahoddiad i rai disgyblion i ddatlu eu llwyddiant gyda'r Cynllun gwobrwyo i fynychu trip i Cineworld, Llandudno ar 15fed o Orffennaf, 2013.

Penwythnos Glan-Ilyn

Bu disgyblion o flynyddoedd 7, 8 a 9 yn ymweld â Glan-Ilyn am benwythnos yn ystod 2013 - 2014. Diolch i Mr Medwyn Williams am gydlynw'r trefniadau.

Cystadleuaeth Roboteg

Yn ystod tymor yr Haf cynhaliwyd gweithdy Robotics hynod lwyddiannus i ddisgyblion blwyddyn 10 sy'n dilyn y cyrsiau Peirianeg a Chyfrifiaduron.

Cwrs Awyr Agored

Fel rhan o'u cwrs Awyr Agored, bu criw o ddisgyblion blwyddyn 11 yn cerdded o Gonwy i Fethesda gan wersylla dros nos yn Llanfairfechan.

Taith yr Adran Wyddoniaeth

Bu disgyblion blwyddyn 8 ym Mhlas Tan y Bwlch yn gwneud gwaith maes fel rhan o'u huned Ecoleg. Cafodd rhai disgyblion o flwyddyn 8 gyfle i gymryd rhan yn Ffair Bioamrywiaeth Eryri a gynhaliwyd ym Mhlas Tan y Bwlch.

Taith Ffrainc (Adran yr Urdd)

By nifer o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 ar daith i Baris yn ysgol Gwyliau'r Pasg, 2014. Diolch i Miss Eiliw Haf a Mr Medwyn Williams am drefnu.

Profiad Gwaith

Bu disgyblion blwyddyn 10 yn treulio wythnos ar brofiad gwaith yn ystod mis Gorffennaf - estynwyn ein diolch i'r holl weithleoedd am dderbyn myfyrwyr o'r ysgol. Diolch i Mr Hywel Roberts am ei waith caled yn trefnu.

Wythnos gweithgareddau

Cynhaliwyd wythnos weithgareddau i flynyddoedd 8-10 ar ddechrau mis Gorffennaf, 2014. Cafodd gweithgareddau amrywiol eu cynnal gan gynnig rhywbeth at ddant pawb.

LLWYDDIANNAU

Eisteddfod Genedlaethol, 2014

Bu nifer o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd a gynhaliwyd yn y Bala yn ystod hanner tymor. Llongyfarchiadau arbennig i Erin Dwyfor Roberts a ddaeth yn fuddugol ar y llefaru unigol i flynyddoedd 7 i 9. Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys am eu hyfforddi.

Maes Chwaraeon

Mae'r Adran Addysg Gorfforol wedi bod wrthi'n brysur unwaith eto ac maent wedi profi cryn lwyddiant. Bu i dri tîm pêl droed merched Ysgol Eifionydd lwyddo i gyrraedd rowndiau terfynol Cymru, sef y 16 diwethaf yn y wlad. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn hanes yr ysgol.

Estynwyd llongyfarchiadau i'r canlynol:

- Cassia Pike ar gael ei dewis i gynrychioli tîm dan 15 Lerpwl
- Shannon Dukes am gael ei dewis i dîm dan 15 Everton.
- Tesni Edwards ar gael ei dewis i gynrychioli tîm hoci Ysgolion Gwynedd.
- Cari Davies a Mian Sion ar gael eu dewis i gynrychioli tîm hoci dan 14 Gogledd Cymru.
- Lora Lukacs sydd wedi cystadlu mewn Cystadleuaeth Nofio Clwb Caernarfon ac wedi curo medal aur, 9 medal arian ac un efydd.
- Chwaraewyd gêm gyntaf tîm hoci blwyddyn 7 yr ysgol yn erbyn tîm blwyddyn 7 ac 8 Ysgol y Moelwyn cyn hanner tymor mis Hydref - Y sgôr terfynol oedd 1-1. Sgoriwyd gôl Eifionydd gan Lleucu Lane yn yr ail hanner.
- Cyrhaeddodd tîm pêl droed Merched Blynnyddoedd 10 a 11 chwarteri (quarter finals) Cymru gyfan.
- Tîm pêl droed Merched Blwyddyn 9 trwodd i gêm derfynol (final) Cymru gyfan.
- Tîm pêl droed Merched Blynnyddoedd trwodd 7 a 8 trwodd i gemau cyn-derfynol (semi final) Cymru gyfan.
- Shannon Dukes a Cassia Pike wedi dewis i sgwad dan 13 Pêl droed merched Cymru.
- Mian Sion a Cari Davies wedi dewis i sgwad dan 14 Hoci merched Cymru.
- Tîm pêl droed Bechgyn Blynnyddoedd 10 a 11 trwodd i gêm derfynol (final) Cymru gyfan.
- Tîm Rygbi Blynnyddoedd 7 a 8 trwyodd i gem gyn -derfynol Plat Eryri.
- Tîm Rygbi Blynnyddoedd 9 a 10 trwy i gêm derfynol (final) Cwmpan Eryri.
- Leo Smith blwyddyn 11 wedi ei dderbyn i academi pêl droed Wrecsam.
- 16 rhedwr wedi eu dewis i redeg dros Meirion-Dwyfor mewn pencampwriaeth traws gwlad Eryri.
- Llongyfarchiadau i dîm Merched dan 13, tîm merched dan 14 a thîm Bechgyn dan 16 ar gael eu coronni yn Bencampwyr Cymru. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw ysgol yng Nghymru i gyflawni'r ffaswn gamp. Diolch i Mrs Lyn Parry Hughes, Mr Bernie Swenney a Mr Gwyn Owen am eu hyfforddi.
- Traws Gwlad Eryri: Llongyfarchiadau mawr i Cassia Pike a enillodd ras Traws Gwlad Eryri
- Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Meirion/Dwyfor: Lleucu Lane, Jasmin Jones, Elise Connor, Fion Emery, Cassia Pike, Shannon Dukes, Bethany Page, Erin Roberts, Emily Mabbot, Guto Owen, Iwan Davies, Dylan Sweeney, Ian Brown, Lea Jones.
- Cynhaliwyd cystadlaethau Mabolgampau Ysgolion Meirionnydd a Dwyfor yng nghaeau Treborth ym Mangor yng nghanol mis Mai. Cafodd Ysgol Eifionydd lwyddiant mawr unwaith eto.
- Bu Cassia Pike yn cynrychioli Eryri ym Mabolgampau Cymru yn ddiweddar. Daeth Cassia yn ail trwy Gymru am daflu'r picell. Llongyfarchiadau mawr iddi. Daeth hefyd yn 5ed trwy Gymru yn y ras 800 medr.
- Yn Mabolgampau'r Sir a gynhaliwyd yn ddiweddar enillodd y tri thîm merched eu cystadlaethau. Daeth bechgyn hŷn yr Ysgol yn 1af yn ogystal. Aeth y tîm merched blwyddyn 9 ymlaen i gynrychioli Meirion Dwyfor yn Eryri lle daethant yn fuddugol. Bydd y tîm yn cynrychioli Eryri yng nghystadlaethau Cymru yn Aberhonddu ar y 09/07/14.
- Bu i dîm rygbi bechgyn Blwyddyn 10 ennill Cwpan Eryri eleni. Daeth y tîm yn fuddugol yn erbyn Ysgol David Hughes. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau athletau ar eu llwyddiant yn Athletau NASUWT

Diolch i Mrs Lyn Parry Hughes, Mr Gwyn Owen a Mr David Bailey am eu gwaith caled.

MATERION ADDYSGOL

Hyfforddiant Mewn Swydd

Bu dau ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd yn ystod y tymor yr Hydref sef 02.09.13 a 04.11.13. Clustnodwyd y diwrnod cyntaf ar gyfer rhaeadru gwybodaeth i staff ar faterion megis:

- Canlyniadau
- Blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Polisi a charfanau Iaith
- Hunan arfarnu a chynllun monitro'r ysgol

Roedd yr ail ddiwrnod o hyfforddiant yn gyfle i'r adrannau fapio eu cynlluniau gwaith CA3 yn erbyn y fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol.

Cafwyd diwrnod hyfforddiant mewn swydd yn ystod Tymor y Gwanwyn sef 05/03/14 ar y cyd gydag Ysgol Ardudwy. Clustnodwyd y diwrnod cyntaf ar gyfer hyfforddi staff ar faterion megis:

- Llythrennedd (i athrawon nad oedd yn reolwyr)
- Rheolaeth ganol (i benaethiaid adran)
- Y wers ragorol

Roedd rhan fwyaf o'r athrawon yn beirniadu bod yr hyfforddiant wedi diwallu'r amcanion a bod y syniadau a gyflwynwyd yn werthfawr. Cynhaliwyd hyfforddiant mewn swydd ar wahân i gymorthyddion. Rhoddir hyfforddiant mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar lefel unigol gan asiantaeth hyfforddi o dan nawdd Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar 23/06/14. Yn ystod y diwrnod, rhoddwyd cyfle i rai o'r athrawon arsyllu gwersi yn ysgolion cynradd y dalgylch. Profodd hyn yn werthfawr iawn gan roddi cyfle i athrawon fyfyrion ar dechnegau addysgu CA2 a'r broses o bontio'n gwricwlaidd o'r naill gyfnod allweddol i'r llall.

Bydd athrawon cynradd y dalgylch yn dod i arsyllu yn yr Uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Rhoddwyd hyfforddiant i weddill y staff ar:

- ddatblygu Sgiliau Rhif ac ymresymu disgyblion
- Hwb+ a Moodle sef system e ddysgu

Yn y sesiwn olaf, rhoddwyd cyfle i staff rannu arfer dda ymysg ei gilydd mewn perthynas â marcio ac asesu gwaith disgyblion. Cafwyd adborth i'r hyfforddiant yn bositif iawn.

Hunan Arfarnu

Yn dilyn canlyniadau Haf 2013 bu i bob Pennaeth Adran gwblhau Hunan arfarniad ar ganlyniadau CA3 a CA4. Bydd yr arfarniadau hyn yn cael eu rhannu gydag aelod cyswllt y Corff Llywodraethu. Fel rhan o'n prosesau hunan arfarnu, bydd yr Uwch Dim Rheoli (UDRH) a Phenaeithiaid adran yn arfarnu llyfrau disgyblion blynyddoedd 7,8 a 9.

Diweddarwyd Patrymlun Hunan Arfarnu'r ysgol yn sgil canlyniadau eleni ac ymarferiadau craffu. Bu Mr Gareth Wyn Jones, AEM yn ymweld â'r ysgol cyn hanner tymor yr Hydref fel rhan o Arolwg Thematig gan Estyn. Roedd cylch yr arfarniad yn ymwneud ag Arfarnu Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang a threuliodd Mr Jones ddiwrnod yn yr ysgol yn cyfweld y Pennaeth, Cyd Gysylltydd y maes sef Mrs Glenda Murray a disgyblion y Cyngor Eco a sampl o ddisgyblion blwyddyn 9.

Cynllun Datblygu Ysgol

- Parhawyd i dargedu cynhalieth i'r adrannau Mathemateg a Saesneg er mwyn codi safonau
- Cynhaliwyd sesiynau adolygu i ddisgyblion yn ystod amser cinio, ôl ysgol ac yn ystod y gwylliau. Diolch i'r holl staff am eu hymroddiad.
- Arsyllwyd gwersi fel rhan o drefn rheoli perfformiad
- Cynhaliwyd cyfarfod adran ar y cyd gydag Ysgol Ardudwy. Roedd ffocws y cyfarfod ar strategaethau gwahanol i leihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.
- Parhawyd i ddefnyddio ein system tracio cynnydd a Mentora cadarnhaol er mwyn adnabod unrhyw batrymau o dangyflawni. Bydd cyfweiliadau mentora Cadarnhaol yn digwydd bob hanner tymor yn ystod y flwyddyn addysgol nesaf.

- Rhoddwyd ffocws uchel i bresenoldeb a phrydlondeb. Enillodd Cassia Pike yr I-pad Mini am bresenoldeb o dros 98%. Defnyddiwyd data presenoldeb hyd at y Sulgwyn er mwyn sicrhau bod blwyddyn 11 yn medru bod yn rhan o'r gystadleuaeth hefyd.
- Fel rhan o'n Strategaeth Pontio ddiwygiedig, bu rhai o athrawon Eifionydd yn arsyllu gwersi cyfoedion yn ysgolion cynradd y dalgylch. Bydd athrawon y cynradd yn arsyllu gwersi gyda ni yn ystod y flwyddyn addysgol nesaf.
- Rhoddwyd ffocws cyson mewn cyfarfodydd staff ac adran i ddatblygu llythrennedd disgyblion. Mapiwyd y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm. Rhannwyd copiau o arfer dda a dderbyniwyd trwy law Mrs Janet Hughes i bob aelod o staff.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant mewn swydd ar sut i ddatblygu sgiliau rhif ac ymresymu mewn gwersi. Bydd angen blaenoriaethu ymateb i'r fframwaith rhifedd yn ystod y flwyddyn addysgol nesaf.
- Parhawyd i rannu arfer dda ymysg staff fel rhan o'n cyfundrefn hunan arfarnu. Cynhaliwyd sesiwn yn ystod y diwrnod HMS lle bu athrawon yn edrych ar lyfrau ei gilydd ac yn rhannu arfer dda mewn perthynas â marcio ac asesu.
- Arsyllwyd gwersi fel rhan o gylch Rheoli Perfformiad yr ysgol. Bydd cyfarfodydd adolygu yn cael eu cynnal yn fuan y tymor nesaf i adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Cymunedau Dysgu Proffesiynol

Mae dwy gymuned ddysgu broffesiynol yn weithredol o fewn yr ysgol. Mae un gymuned ddysgu wedi ei sefydlu ar y cyd gydag ysgolion cynradd y dalgylch ac yn edrych yn benodol ar ddatblygu sgiliau darllen disgyblion CA2 a CA3. Mae'r ail gymuned ddysgu yn gymuned fewnol o fewn yr ysgol. Mae'n edrych yn benodol ar leihau'r bwlch mewn perfformiad bechgyn.

Cwricwlwm a'r Cyrsiau Galwedigaethol

Yn unol â gofynion y mesur mae'r ysgol yn parhau i gydweithio gyda Choleg Meirion Dwyfor ac Ysgol Ardudwy wrth gynllunio a darparu cwricwlwm CA4. Bu Pennaeth a Dirprwy Ysgol Ardudwy yn cyfarfod Uwch Dim Rheoli Eifionydd yn ddiweddar er mwyn cynllunio'r Cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd yn ofynnol i resymoli'r nifer o gyrsiau a gynigir flwyddyn nesaf yng ngwyneb y diffyg yng nghyllideb 2014/15 a'r gost sydd yng nghlwm a chludo disgyblion i'r gwahanol leoliadau. Cwtogwyd nifer y cyrsiau i 34 posib 25 yw'r gofyn statudol newydd. Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol ag Ysgol Ardudwy â Choleg Meirion Dwyfor yn parhau ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf. Cyd amserlenwyd ar draws 2 golofn dewis.

COLOFN 1	COLOFN 2	COLOFN 3	COLOFN 4
Datblygiad Plentyn (E)	Dylunio a Thechnoleg - Defnyddiau Gwrthiannol (E)	Addysg Grefyddol (E)	Cerdd (E)
Hanes (E)	Cyfrifiadureg (E)	Arlwyo (E)	Hanes (E)
Ffrangeg (E)	Addysg Gorfforol (E)	Peirianeg (CMD)	Dylunio a Thechnoleg - Cynhyrchion Graffeg (E)
Dylunio Cynnyrch (A)	Celf (E)	Daearyddiaeth (E)	Busnes (A)
Astudiaethau Cyfreithiol (A)	Profiad Gwaith Estynedig (E)	Cynhyrchu Cyfryngol Creadigol (CMD)	Peirianeg (E)
Adeiladwaith (A)		Amaethyddiaeth (CMD)	Profiad Gwaith Estynedig (E)
			Celfyddydau Perfformio (A)

Ystyrir isafswm o 8 disgybl fel nifer hyfyw ar gyfer ar gyfer rhedeg cwrs TGAU/BTEC.

Mae pob disgybl ym flwyddyn 10 yn cael eu mentora er mwyn sefydlu a monitro targedau'r disgyblion mewn cyrsiau TGAU neu BTEC. Bu i amserlen yr ysgol newid wedi gwyliau'r Sulgwyn. Yn sgil hyn, mae'r disgyblion sy'n dilyn cyrsiau yn Ysgol Ardudwy eisoes wedi dechrau arnynt. Bydd y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau yng Ngholeg Meirion Dwyfor yn cychwyn ar eu cyrsiau hwy ym mis Medi. Mae disgyblion o Ysgol Ardudwy yn dilyn cyrsiau TGAU Daearyddiaeth ac Addysg

Grefyddol yn Eifionydd. Trwy gydweithio fel hyn, llwyddwyd i ehangu'r dewisiadau i'r disgyblion ac ychwanegu at ein cynhwysedd fel ysgol.

BAC: Mae pob disgybl CA4 yn dilyn cymhwyster y BAC. Caiff y disgyblion hyd at ddwy awr o wersi a tiwtora yr wythnos gyda'r tiwtor BAC. Rydym wedi parhau gyda'n trefn o Fentora Cadarnhaol a thracio cynnydd gyda disgyblion blwyddyn 10/11 a rhoddir cymorth unigol ychwanegol trwy gefnogaeth Anogwr Dysgu am 25.75 awr.

Cynhwysiad

Mae'r Awdurdod yn parhau am flwyddyn arall i gyllido'r Uned Cynhwysiad. Er hynny, mae cynlluniau ar y gweill i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i ysgolion a thalu am y ddarpariaeth trwy fformiwla yn seiliedig ar faint ysgol a lefel cinio am ddim. Ar hyn o bryd cyflogir un athro ac un cymhorthydd llawn amser gan yr Awdurdod. Yn ôl y fformiwla sy'n cael ei argymhell gan y fforwm Cyllid, bydd Ysgol Eifionydd yn wynebu toriadau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae 11 disgybl yn mynychu'r uned yn rhan neu'n llawn amser. Mae'r oriau yn amrywio o 24 gwers allan o 25 i 2 allan o 25. Mae naw yn ddisgyblion CA4 a dau o flwyddyn 9. Darparir adroddiad wythnosol i'r rhieni ar gynnydd y disgyblion yn yr Uned a chynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Mae'r Uned yn parhau i weithion dda ac mae ymateb staff a disgyblion yn bositif iawn.

Mae Ms Denise Jones yn parhau i weithredu fel Cwnselydd yn yr ysgol am un diwrnod yr wythnos. Mae Miss Eleri Wyn yn parhau fel Swyddog Prydlondeb a Phresenoldeb yr ysgol. Llwyddwyd llynedd i godi presenoldeb yr ysgol o 90.91% i 93.44%. ar hyn o bryd mae presenoldeb yn sefyll ar 93.63%. Amlygir pwysigrwydd prydlondeb a phresenoldeb i'r disgyblion yn rheolaidd. Mae cynllun gwobrwyo presenoldeb yn weithredol gyda'r posibilrwydd o ennill £5 am bresenoldeb 100% bob hanner tymor fesul blynyddoedd ac i-pad mini am bresenoldeb o 98% dros flwyddyn gyfan. Cynigwyd y syniadau gan y Cyngor Ysgol. Gweithredir hefyd cynllun o gosbi problemau prydlondeb rheolaidd gyda detention.

Mae P.C. J.P.Rowlands yn parhau fel swyddog Heddlu Ysgolion a Chymunedau. Mae'n cyfrannu i raglen ABaCH yr ysgol.

Hoffwn ddiolch i'r uchod am eu cefnogaeth ac am eu gwaith o fewn yr Ysgol

Targed Cynhaliath

Fel rhan o strategaeth codi safonau'r ysgol, parhawyd i dargedwyd cynhaliath ychwanegol i'r adrannau Saesneg a Mathemateg. Gan fod 100% o ddisgyblion blwyddyn 11 llynedd wedi cyrraedd Trothwy Lefel 2 (A* - C) mewn Gwyddoniaeth penderfynwyd nad oedd angen targedu cynhaliath ddwys arnynt. Bydd y Pennaeth yn parhau fel aelod cyswllt i'r adran.

Saesneg:

Bu'r Ymgynghorydd annibynnol Mrs Janet Hughes i mewn yn gweithio gyda'r adran yn ystod y flwyddyn. Yn ystod ei hymweliad rhoddwyd sylw i:

- Ysbrydoli bechgyn yn y pwnc
- Gwahaniaethu yn y dosbarth
- Dulliau gwirio iaith disgyblion
- Sefyllfa mewn perthynas â chwblhau elfennau o'r gwaith cwrs TGAU blwyddyn 10
- Mapio blynyddoedd 10 ac 11
- Dogfen Estyn Mehefin 2014 Saesneg CA2/CA3
- Lefelau CA3 eleni
- Mapio CA3 i gynnwys y Fframwaith Llythrennedd

Byddwn yn derbyn adroddiad cynnydd cyn diwedd y tymor. Bydd yr aelod cyswllt yn derbyn copi o'r adroddiad. Bydd y trefniant hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn addysgol nesaf.

Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng yr y Pennaeth Adran a'r aelod cyswllt UDRH.

Mathemateg:

Fel rhan o becyn cynhaliath a drefnwyd gan GwE, bydd Mr Dylan Minnice, Dirprwy Bennaeth Botwnnog yn cefnogi'r adran Mathemateg am gyfwerth a 6 diwrnod. Mae'r ymweliad cyntaf ar 14/07/14. Bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio ac fe gaiff ei rannu â'r Corff yn ystod tymor yr Hydref.

Yn sgil derbyn cadarnhad ein bod i dderbyn £10,000 o arian grant Refeniw Lefel 1, penderfynwyd parhau i gyflogi Mr David Bailey i dargedu grŵp penodol o ddisgyblion ym mlwyddyn 11. Bydd natur y targedu yn wahanol o fis Medi ymlaen gan fod Mrs Helen Puw yn dysgu dau grŵp TGAU ym mlwyddyn 11.

Mae cefnogaeth yr UDRH a'r aelod cyswllt o'r Corff wedi parhau i'r Pennaeth Adran. Er hynny, anfodddhaol fu'r gweithrediad yn erbyn y cynllun gweithredu hyd yn hyn. Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu yn ffurfiol yn ystod yr Hydref.

Cymorth Darllen a Rhif

Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth darllen a rhif ychwanegol i rai o ddisgyblion blwyddyn 7, 8, 9 a 10. Mae'r cymorth yma yn cael ei gynnig yn ystod yr egwyl, gwersi penodol a chyfnodau boreol.

Parhawyd a'r cynllun 'Dyfal Donc' a 'Catch Up'. Cynlluniau yw'r rhain i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd disgyblion CA3 yn y Gymraeg a'r Saesneg. Derbyniodd 34 disgybl gymorth darllen trwy'r cynllun uchod gyda Mrs Nia Povey.

Sefydlwyd cynllun cymorth mathemategol dwys ar gyfer disgyblion o flwyddyn 7 i 10. Hyd yn hyn mae 47 disgybl wedi derbyn cymorth trwy'r cynllun gan Mrs Ann Roberts. Mae'r cymorth uchod yn cael ei ariannu trwy grant Amddifadedd y Llywodraeth (GAD).

Yn ogystal â'r uchod mae athrawon yr adrannau Cymraeg a Saesneg hefyd yn darparu cymorth yn ystod cyfnodau cofrestru i ddisgyblion â sgiliau darllen a deall ychydig yn is na'u hoed cronolegol.

Profion Llythrennedd a Rhifedd

Eleni eto cynhaliwyd profion darllen a rhifedd statudol. Gweinyddwyd y profion o dan amodau arholiad yma yn Eifionydd. Marciwyd y papurau gan athrawon arbenigol. Derbyniodd yr ysgol swm o £450 gan y Llywodraeth tuag at gostau marcio'r sgrïptiau. Bydd canlyniadau'r profion llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) ynghyd a chanlyniadau'r profion rhifedd yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraethwyr wedi inni dderbyn yr adroddiad crynodol gan y Cynulliad.

Clwb Bydis

Mae'r clwb bydis yn parhau i gael ei redeg gan y cymorthyddion yn ystod yr awr ginio. Mae'r clwb hwn yn allweddol i ddisgyblion â chanddynt sgiliau cymdeithasol gwan.

Cyngor Ysgol

Bu i Elizabeth Facer a Brychan Roberts gynrychioli'r Cyngor Ysgol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Eifionydd am 2013/14. Diolch iddynt am eu cyfraniad.

Cyswllt Cynradd / Uwchradd

Cynhelir cyfarfodydd Cyswllt Cynradd/Uwchradd yn dymhorol. Mae strategaeth bontio wedi ei chreu ar y cyd gyda'r Pennaethiaid cynradd ac fe arfarnir ei heffeithlonrwydd yn rheolaidd. Caiff disgyblion cynradd gyfle i ymweld ar ysgol yn gyson fel rhan o'r strategaeth pontio.

Cyrchfannau disgyblion sydd dros 16 oed - 2013-2014
Disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 2013-2014 = 87

<i>Cwrs mewn ysgol neu unrhyw gwrs addysg bellach</i>	80
<i>Hyfforddiant</i>	2
<i>Gweithio</i>	2
<i>Di waith</i>	3
<i>Dim gwybodaeth</i>	0
<i>Wedi symud o'r ardal</i>	0
<i>Arall</i>	0

DISGYBLION SYDD AG ANGHENION CORFFOROL ARBENNIG

Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig i blant ag anghenion corfforol arbennig ag i blant a nam golwg ac mae wedi ei haddasu i'r pwrpas hwnnw.

Gwelir y canlynol fel y prif egwyddorion:

- Sicrhau safonau uchel a chynhwysiad cymdeithasol llawn.
- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag anghenion addysgol arbennig.
- Cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol perthynol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol.
- Sefydlu partneriaeth gyda'r rhieni a'r Cyrff Gwirfoddol sy'n eu cynrychioli.
- Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion addysgol arbennig a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

Lluniwyd polisi A.D.Y. yn yr ysgol. Mae'r polisi wedi'i fabwysiadu gan y Llywodraethwyr ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Gall rhieni fwrw golwg dros y polisi pe dymument trwy gysylltu â'r ysgol yn gyntaf.

Prif egwyddor ac amcan ADY yr ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i holl blant yr ysgol, beth bynnag fo'u cyflwr addysgol, corfforol neu feddygol. Dylid sicrhau'r nod yma yn ddieithriad. Mae'r ysgol yn anelu at safonau uchel ar gyfer pawb a chymhwysiad cymdeithasol llawn.

Gwneir hyn trwy ateb gofynion deddf gwlad, trwy ddarparu yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad yr AALL a thrwy weithio yn fewnol mewn cydweithrediad â rhieni ac asiantaethau allanol, a hynny dan arolygaeth y corff llywodraethol. Cyfrifoldeb Mrs. Sharon Roberts, y Cydlynnydd ADY, yw sicrhau fod y ddarpariaeth ADY yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir.

Adnoddau

Adnoddau	1. Llyfrau i oed darllen isel ond diddordebau i oed ardegol.
Dysgu	2. Cyfresi Dyfal Donc a Catch Up.
	3. Y Cymhorthyddion wedi eu hyfforddi i ddilyn rhaglen Dyfal Donc.
	4. Offer Mathemategol i ddysgu sgiliau byw.
	5. Offer cyfrifiadurol.
	6. 'Bydi' meithrin cyfeillgarwch atal bwlio.
	7. Rhaglenni addysg unigol.
	8. Clybiau Darllen a Rhifedd
	9. Cefnogaeth unigol gan gymhorthydd addysgol. Mae'r ysgol wedi ei dynodi ar gyfer ddisgyblion â nam corfforol.
	10. Cymhorthyddion Addysgol wedi mynychu cyrsiau HMS Cyngor Gwynedd
Cyllid	Swm penodol i A.D.Y drwy ddyraniad integreiddio Swm penodol i bob adran gyda chyfran ohono wedi'i glustnodi ar gyfer A.A.A. Dyraniad Integreiddio gan y Sir.
Staff	Mae'r Cydlynnydd A.A.A. yn gyfrifol am ateb gofynion A.A.A. yr ysgol. Mae cyfwerth a 8.5 cymhorthydd addysgol. Amser i'r cydlynnydd - 5 awr yr wythnos. Amser dysgu cynhaliol Amser grwpiau bach (dan 14) Cymorth Cyntaf ymdopi ag anhwylderau fel Epilepsi.

Asesu a Chynnal

Bydd anghenion yn cael eu canfod trwy:-

- i) Profion Cenedlaethol y Cynulliad
- ii) gwybodaeth a drosglwyddir gan ysgolion cynradd.
- iii) gwybodaeth a drosglwyddir gan asiantaethau allanol
- iv) waith ysgrifenedig, profion sillafu a thrwy i athrawon ddatgan pryder;
- v) profion darllen o fewn y gwersi Cymraeg
- vi) profion darllen o fewn y gwersi Saesneg

Profion Diagnostig gan athrawon arbennigol:

- vii) profion Abertawe - "Ein hysgol ni";
- viii) profion Abertawe - "Our School";
- ix) profion mathemategol - NFER (11 oed);
- x) profion unigol Young's Parallel; Group Reading Test

Os oes arnynt angen cymorth, gweithredir ar ran y disgyblion, yn ôl eu hanghenion

ADEILADAU

Fe neilltuwyd y swm o £50,601 ar gyfer gwariant adeiladau rhwng 1af o Ebrill 2013 hyd at 31ain o Fawrth 2014.

Dyma'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:-

- Ail weirio'r bloc technoleg, theatr, uned cynhwysiad ac ystafelloedd dysgu addysg gorfforol - (Cost AALI).
- Gosod gwresogyddion nwy newydd mewn labordai'r ysgol - (Cost AALI).
- Gosod bwyler newydd yn y bloc technoleg/cynhwysiad a rheiddiaduron - (Cost AALI).
- Gosod nenfwd ffals newydd i goridorau'r bloc technoleg, uned cynhwysiad a'r ystafelloedd dysgu addysg gorfforol - (Cost AALI).
- Gosod nenfwd newydd i'r ystafell tecstilau a'r ystafell gymunedol - (Cost AALI).
- Tynnu hen deils asbestos o'r toiledau'r uned cynhwysiad, stordai glanhau, stordy Ffrangeg-Hanes a llawr ystafell ddysgu addysg gorfforol. Gosod llawr newydd yn y stordy Ffrangeg, toiledau'r uned cynhwysiad ac ystafell ddysgu addysg gorfforol - (Cost AALI).
- Tynnu soffits asbestos y gampfa a gosod soffits newydd - (Cost AALI).
- Paentio drysau a phibellau allanol yr ysgol - (cyllideb ysgol).
- Paentio ystafelloedd y gampfa - (cyllideb ysgol).
- Ail osod ffens y cyrtiau tenis - (cyllideb ysgol).
- Ail osod y tarmac dros bibell gyswllt rhwng y prif adeilad a'r gampfa - (cyllideb ysgol).
- Blinds newydd ar gyfer ystafell cyfrifiaduron, ystafell ddysgu addysg gorfforol, ystafell ymarfer cerdd a thrsio blinds Ffrangeg a mathemateg - (cyllideb ysgol)

DYDDIADAU, TYMHORAU AC AMSERAU SESIYNAU

TYMOR

Hydref 2013 2 Medi 2013 - 20 Rhagfyr 2013
Gwanwyn 2014 6 Ionawr 2014 -11 Ebrill 2014
Haf 2015 28 Ebrill, 2014 - 21 Gorffennaf 2014

Cafwyd 4 diwrnod Hyfforddiant mewn swydd a diwrnod dan reolaeth Ysgol.
Daw hyn a nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190.

ABSENOLDEB 2013-2014

Cyfradd Awdurdodedig - 5.60%
Absenoldeb Anawdurdodedig - 0.67%
Cyfanswm Absenoldeb - 6.27%

2013-2014	CYLLIDEB	GWARIANT	GWEDDILL
GWEITHWYR			
Staff Addysgu			
Athrawon	1303787	1298733.55	5053.45
Wrth Gefn Cytundeb tal	8390	0	8390
Athrawon ADY	16615	17235.48	-620.48
Llanw Arall	0	-6429.6	6429.6
Llanw Ad daliadau - Yswiriant Salwch	16000	4757.55	11242.45
Baich Athrawon	54566	53536.78	1029.22
Uned Cynhwysiad	300	311.55	-11.55
Uwch Oruchwylwyr Amser Cinio	6821	7990.94	-1169.94
Staff Ategol			
Staff Gweinyddol/Technegwyr	126279	125242.7	1036.3
Staff yr Awr	29538	28383.23	1154.77
Cymorthyddion AAA	75342	64500.96	10841.04

Anogwr Dysgu	12873	12873	0
Cyllid Amddifadedd	17260	17125	135
Arolygwyr Arholiadau	3000	1719.89	1280.11
Costau Hysbysebu	1400	1554.4	-154.4
ADEILADAU			
Argyfwng Adeiladau	5000	600	4400
Cynllun Datblygu Adeiladau	24866	22473.38	2392.62
Cynnal a Chadw Cyffredinol	15937	17138.17	-1201.17
Cynnal a Chadw Newydd	5000	-1398	6398
Defnyddiau Glanhau	1500	1493.43	6.57
Dodrefn	1500	1364.37	135.63
Trethi	41760	41760	0
Dwr	7000	2014.89	4985.11
Nwy	23000	19720.67	3279.33
Trydan	18000	22038.81	-4038.81
Cynllun Rheoli Carbon	7366	9175	-1809
Cytundebau			
Glanhau	46606	46606.08	-0.08
Goruchwylio Adeiladau - Adain Eiddo	3588	3588	0
Cynllun Datblygu Diogelwch	3500	6208.9	-2708.9
Offer Ymladd Tan	1000	874.73	125.27
CLUDIANT			
Lwfansau Ceir	1150	207.94	942.06
Cludiant Cyrsiau Coleg	15000	9558.08	5441.92
Bysus	2000	1205	795
Bws Mini	3000	1605.18	1394.82
LWFANS Y PEN			
Adrannau	23736	22905.19	830.81
Adnoddau	2000	1658.77	341.23
Addysg Iechyd	200	206.95	-6.95
Anghenion Arbennig	500	448.08	51.92
Astudiaethau'r Gweithle	1500	0	1500
Busnes	0	-129.61	129.61
Cronfa Tymor Hir Cyfrifiaduron	10000	9611.45	388.55
Cyfieithu	500	0	500
Cymorth Cyntaf	1000	1009.23	-9.23
Cyngor Disgyblion	100	0	100
Cwricwlwm	2000	1420.17	579.83
Ffeiliau Cynnydd	400	156.21	243.79
Gwobr Dug Caeredin	100	0	100
Gyrfaoedd	200	200	0
Llungopio	1500	-5510.32	7010.32
LLyfrgell	950	985.32	-35.32
Llythrennedd	300	331.84	-31.84
Marc Ansawdd	300	326.01	-26.01

Refeniw - Cyrsiau Lefel 1	16000	11986.53	4013.47
Sgiliau Sylfaenol	100	526.16	-426.16
Technoleg Hybysaeth	3000	3012.91	-12.91
Ysgol Werdd	100	84.62	15.38
Rhifedd	100	102.36	-2.36
Cyllid Pennaeth	1000	975	25
Cyllid Llywodraethwyr	100	0	100
Cyllid Cynlluniau Datblygu	5000	5738.45	-738.45
Cynllun Rhagolygon Eifionydd	0	0	0
CYFL A GWASANAETHAU			
Defnyddiau Swyddfa	4000	3722.36	277.64
Post	3000	3469.45	-469.45
Arholiadau	45000	44353.25	646.75
Ffon	3500	2577.49	922.51
GRANTIAU			
Pontio Cynradd/Uwchradd	285	23.34	261.66
Athrawon Newydd Gymhwyso	0	291.15	-291.15
Rhaglen Cymorth Personol	0	0	0
Datblygiad Profesiynol 1	2260	210	2050
Datblygiad Profesiynol 2	1440	163.96	1276.04
Cyfrif HMS 1	500	928.98	-428.98
GWASANAETHAU ALLANOL			
Pyllau Nofio	4000	3809.29	190.71
Cynllun Busy Bees	200	292.69	-92.69
Cyrsiau Allanol CA4	15000	10893	4107
Cynllun Offerynnol - Gwasanaeth William Matheias			
Cynllun Offerynnol - GWARIANT	14000	14937.86	-937.86
Cynllun Offerynnol - INCWM	0	-5190.02	5190.02
Cytundebau CYNNAL			
Cefnogaeth Cwricwlwm	8378	8378	0
GWEAD - Dysgu o bell	1941	0	1941
Cefnogaeth Systemau Rheoli	8426	8426	0
Cefnogi Offer cyfrifiadurol	10486	10486	0
Patrymlun hunan arfarniad ar lein	600	600	0
Cynllun Partiau - Profion Trydanol	2362	2362.88	-0.88
Cytundebau SIROL			
Gwasanaeth Cyllidol	426	426	0
Rheoli Banc/Incwm	558	558	0
Cyflogau	4437	4437	0
Cynnal Tiroedd	11510	11510	0
Cytundeb Gwasanaeth Darparu Arlwyfaeth			
Prydau Bwyd - GWARIANT	29370	136147.41	-106777.41

Prydau Bwyd - INCWM	0	-99907	99907
GEY/SEG a'r Grant Cymraeg mewn Addysg			
GEY - Blaenoriaeth 1 - L:lythrennedd a Rhifedd	0	-4226.12	4226.12
GEY - Blaenoriaeth 2 - Cau'r Bwlch	0	-194.06	194.06
GEY - Plant mewn Gofal (PMG)	0	-363.5	363.5
GEY - Grant y Gymraeg mewn Addysg (GCA)	0	-636.6	636.6
ARIAN WRTH GEFN	39000	0	39000
Llog ar Falansau	0	-1032	1032
CYFANSWM GWARIANT	2180309	2047270.19	133038.81
INCWM			
Gosodiadau Nos	-6975	-16320	9345
Gosodiadau - Dydd	-200	-805	605
Incwm Arall	0	0	0
Grant Codi Safonau CA3	-12528	-12528	0
Grant Poblogaeth/Ynni	0	0	0
Grant Amddifadedd Disgyblion	-18900	-18900	0
Grant Anogwr Dysgu	-7547	-7547	0
Grant ANG	0	-2100	2100
Grant Cynradd Uwchradd	0	0	0
Grant Rhaglen Cymorth Personol	-3686	-3686	0
Grant Cyrsiau Rhwydwaith	0	-2699	2699
Grant Y Bagaloriaeth	-13600	-15720	2120
Grant Cynhwysiad	0	0	0
CYFANSWM INCWM	-63436	-80305	16869
CYFANSWM Y GYLLIDEB	2116873	1966965.19	149907.81